



Ysgolion uwchradd

Mae ysgolion wedi rhoi blaenoriaeth i'r **gofal, cymorth ac arweiniad** maent yn eu cynnig i fynd i'r afael ag unrhyw faterion yn ymwneud â **lles** disgyblion sydd wedi deillio o'r cyfnodau clo.

Beth sy'n mynd yn dda

- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cymorth cryf i ddisgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol penodol ac yn gwneud defnydd da o asiantaethau allanol.
- Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel dinasyddion moesegol, gofalggar sy'n parchu gwahaniaeth ac amrywiaeth. ([Cliciwch yma i weld adnoddau y gall Cyngorau Ysgol neu grwpiau disgyblion eu defnyddio i ystyried os ydynt yn dysgu digon am hanes Cymru, gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant pobl Ddu, Aisiadd a Lleiafrifoedd Ethnig](#)).
- Mae gan llawer o ysgolion bolisi ymddygiad effeithiol a gweithdrefnau tra ystyriol ar gyfer ymdrin ag achosion o fwlio ac aflonyddu.
- Mae llawer o ysgolion yn datblygu eu darpariaeth i atal a mynd i'r afael ag achosion o aflonyddu rhywiol.
- Mae darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder ym mwyafrif yr ysgolion.

Beth sydd angen ei wella

- Mewn ychydig o achosion, nid oes gan ysgolion systemau digon cadarn a sicr i gofnodi pryderon diogelu, gan gynnwys rhai yn ymwneud â bwlio ac aflonyddwch.
- Er gwaethaf ymdrechion gorau llawer o staff, mae achosion o ddisgyblion yn cael profiad o fwlio ac aflonyddu oherwydd eu rhywioldeb, nodweddion hiliol neu eu rhywedd ym mhob ysgol.
- Mae rhai disgyblion ym mhob ysgol yn cael profiad o rywfaint o aflonyddwch rhywiol.
- Mae data heb ei ddilysu yn awgrymu bod presenoldeb llawer yn is nag oedd cyn y pandemig, yn enwedig presenoldeb disgyblion sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
- Mae ychydig o ddisgyblion wedi cael trafferth ailaddasu i fywyd ar ôl y pandemig ac yn methu rheoli eu hymddygiad yn ddigon da.



Mae ysgolion yn gweithio i ailsefydlu **addysgu** effeithiol i gefnogi **dysgu** disgyblion a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau a ddigwyddodd oherwydd profiadau'r pandemig.

Beth sy'n mynd yn dda

- Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae athrawon yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â disgyblion ac yn rheoli eu hystafelloedd dosbarth yn effeithiol.
- Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cynllunio'n ofalus i fodloni eu hanghenion. Mae athrawon yn modelu dulliau'n llwyddiannus ac yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau yn fedrus i addasu eu haddysgu.
- Mewn ychydig o ysgolion, mae dylunio'r cwricwlwm wedi'i seilio ar ymchwil, yn berthnasol i gyd-destun yr ysgol ac yn gysylltiedig â datblygu addysgu. Mae meysydd dysgu'n creu cwricwlwm i sicrhau dilyniant o'r cyfnod cynradd i'r cyfnod uwchradd.

Beth sydd angen ei wella

- Yn gyffredinol, mae medrau llefaredd, ysgrifennu a rhifedd disgyblion wedi llithro'n ôl yn ystod y cyfnodau clo.
- Yn ystod y cyfnodau clo, ni chafodd disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar ruglder disgyblion a'u tuedd i siarad Cymraeg ym mhob math o ysgol.
- [At ei gilydd, nid yw dulliau newydd ysgolion ar gyfer eu cwricwlwm wedi rhoi digon o bwyslais ar wella ansawdd yr addysgu na sicrhau dilyniant o'r cyfnod cynradd.](#)



Mae **arweinwyr** wedi ymateb â chryfder a gwydnwch i gadw cymunedau eu hysgolion yn ddiogel a lleddfu effaith camau i reoli lledaeniad COVID-19.

Beth sy'n mynd yn dda

- Ers dychwelyd i fywyd ysgol a phrosesau mwy arferol, mae uwch arweinwyr yn ystyried yn ofalus y cydbwysedd rhwng dwyn staff i gyfrif a diogelu eu lles.
- Mewn llawer o achosion, mae uwch arweinwyr yn ymateb yn dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel diwygio anghenion dysgu ychwanegol a datblygu eu cwricwlwm.
- Mewn llawer o ysgolion, mae dysgu proffesiynol wedi'i gynllunio'n dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu.

Beth sydd angen ei wella

- O ganlyniad i atal prosesau hunanwerthuso arferol ysgolion, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau a meysydd i'w gwella eu hysgolion bob tro.
- [Diffyg cyffredin ymhlith arweinwyr ar bob lefel yw eu diffyg dealltwriaeth o sut i werthuso addysgu yn sgil ei effaith ar ddysgu.](#)
- Nid yw arweinwyr yn blaenoriaethu'r angen i sicrhau cynnydd disgyblion mewn Cymraeg a TGCh bob tro.
- Mewn ychydig o achosion, nid yw dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar wella addysgu.